# Nyth Gwennol y Bondo

Parch at fywyd / Gweld cyfle

Bob Ebrill, yn ddiffael, byddai Gwennol y Bondo yn cyrraedd ar ôl ei thaith bell o Affrica. Doedd hi ddim yn daith hawdd. Weithiau byddai stormydd yn codi a thro arall byddai pobl mewn gwledydd eraill yn ceisio'u dal er mwyn eu bwyta. Ond, dyma gyrraedd yn saff unwaith yn rhagor. Roedd Gwennol y Bondo wedi gwneud y daith bedair blynedd ar ôl ei gilydd. Ar ddiwedd y daith bob blwyddyn byddai Gwennol y Bondo'n teimlo'n flinedig. Ond blinder am ddiwrnod neu ddau ydoedd. Ymhen dim byddai'r ysfa i ddechrau gweithio yn drech na'r blinder. Ychydig oriau o hedfan yn isel dros ddŵr y llyn i gael pryd o bryfed blasus a dyna hi. Doedd dim amdani yn awr felly ond mynd ati i atgyweirio'r tŷ. Gwelai fod nyth llynedd yno o dan y bondo. Gwell fyddai archwilio. Pan oedd hi'n hedfan tua'r nyth pwy welai yno ond pâr o adar to. Roedden nhw wedi meddiannu'r nyth. Roedd gwellt i'w weld yn gymysg a'r mwd. Mae'n amlwg eu bod nhw wedi bod wrthi'n malurio ceg y nyth er mwyn ei wneud yn fwy gan fod aderyn y to dipyn tewach na gwennol y bondo. Dechreuodd yr adar to ymlid Gwennol y Bondo. Adar ymladdgar iawn ydi adar y to. Doedd dim i'w wneud ond chwilio am le arall i nythu.

Drwy'r dydd bu wrthi'n archwilio'r tai. Erbyn canol y pnawn roedd hi wedi blino'n lân. Gorffwysodd am ychydig. Aeth i lawr i lan yr afon. Yno y byddai'n siŵr o gael mwd i wneud ei nyth. Yno hefyd y byddai ei ffrindiau i gyd yn trydar eu straeon. Roedd glan yr afon yn le da i gyfarfod â hen ffrindiau ac i wneud ffrindiau newydd. Byddai gan bob un ei stori am y daith o Affrica, am yr helbulon a'r troeon trwstan.

Edrychodd i fyny at y tŷ gwyn oedd ar lan yr afon. Roedd hwn yn dy newydd. Yn sicr, doedd o ddim yno'r llynedd. Edrychodd yn graff ar y bondo. Fedra hi ddim coelio ei llygaid. Roedd yna ddau nyth o dan y bondo. Hedfanodd i weld pwy oedd yno. Er mai nythnod gwenoliaid y bondo oedd y ddau nyth eto

i gyd roedden nhw'n wag ac yn wahanol rywsut. Aeth Gwennol y Bondo'n nes atyn nhw. Doedd yna ddim aderyn ar gyfyl y lle. Roedd y rhain yn nythod newydd sbon. Ond nid nythod wedi cael eu codi gan y gwenoliaid oedden nhw. Nythod wedi eu gwneud yn arbennig gan berchnogion y tŷ newydd oedden nhw. Mae'n amlwg bod perchnogion y tŷ yn hoff o weld y gwenoliaid yn cyrraedd.

Aeth Gwennol y Bondo i mewn i'r nyth. Roedd hi wedi rhyfeddu. Pob peth yn barod. Dim ond dodwy oedd rhaid iddi'n awr. Sylwodd ar un peth pwysig iawn ac meddai wrthi'i hun,

"Fydd dim modd i'r adar to falurio'r nyth yma i wneud nyth iddyn nhw eu hunain. Mae'r nyth hwn wedi ei wneud o ddeunydd caled iawn."

Hedfanodd Gwennol y Bondo i lawr i lan yr afon i ddweud y newydd wrth ei chymar. Cododd y ddau i'r awyr. Roedd bywyd yn brafiach eleni nag y buo fo erioed. Diolch i berchennog y tŷ gwyn.

Mae'n rhaid i ni weithiau helpu'r adar a'r anifeiliaid. O Dduw, helpa fi i wneud fy rhan i'w helpu bob adeg o'r flwyddyn. Amen.

✦ Beth fedrwch chi ei wneud i helpu'r creaduriaid a) yn y gaeaf b) yn yr haf?

✦ Chwiliwch am fwy o hanes gwennol y bondo. Oes yna adar eraill sy'n symud o un rhan o'r byd i ran arall (ymfudo)?